Gweiddi

# Tasg 2

# Chwaraeon cyffrous yn yr ardal

1. Rydych chi'n mynd i gynllunio penwythnos o gemau 'gwahanol' yn yr ardal.

Trafodwch a gwnewch nodiadau:

- **Beth yn union** fydd yn digwydd – pa gampau?
- **Ble yn union** e.e. yn y pwll nofio / ar y cae chwarae / ym maes parcio ...
- **Pryd yn union** bydd y digwyddiadau – am faint o'r gloch dros y penwythnos fydd y gwahanol gampau'n digwydd?
- **Y gwobrau** – tlysau, cwpanau, arian?
- **Dillad** – oes angen dillad / esgidiau arbennig?
- **Gwybodaeth arall** – e.e. sut rydych chi'n mynd i hysbysebu'r digwyddiad?

2. Dywedwch wrth grŵp arall am eich chwaraeon chi, e.e.
   **Siaradwch** am y chwaraeon.
   **Gofynnwch** gwestiynau i'ch gilydd.
   **Mynegwch** eich barn am chwaraeon eich gilydd.

3. Rydych chi'n mynd i ysgrifennu sgript ar gyfer hysbysebu'r chwaraeon hyn ar y teledu. Rydych chi eisiau perswadio pobl i ddod, felly pa fath o iaith ydych chi'n mynd i ddefnyddio? Meddyliwch am:

- pa fath o ansoddeiriau – meddyliwch am enghreifftiau.
- pa fath o gwestiynau – meddyliwch am enghreifftiau.
- pa fath o orchmynion – meddyliwch am enghreifftiau.

Ydych chi'n mynd i gyfweld rhywun ar y ffilm? Pwy? Pa fath o iaith ydych chi'n mynd i ddefnyddio mewn cyfweliad?

4. Paratowch sgript ar gyfer yr hysbyseb.

Gallwch chi ddefnyddio'r fformat yma os ydych chi eisiau:

| Ffilm | Pwy sy'n siarad | Sgript |
|---|---|---|
| Lluniau gwahanol i ddangos y gemau, e.e. rhywun mewn gwisg hwyaden yn dod allan o'r pwll nofio, dau berson wedi eu gwisgo fel tedis yn rhedeg mewn ras tair coes, dau dîm yn taflu dŵr dros ei gilydd, ras beiciau tair olwyn | Cyflwynydd: | Ydych chi'n hoffi chwaraeon gwahanol? Wel, os ydych chi, dewch i Abermawr ym mis Gorffennaf oherwydd yno, o'r ail tan y trydydd o Orffennaf, bydd Gemau Gwych Gwahanol yn cael eu cynnal ... a bydd y gemau **yn** wych ac yn wahanol.<br><br>Eleni, bydd llawer o gystadlaethau gwahanol, fel ras hwyaid ... ras y tedis ... pwy yw'r gwlypaf? a llawer iawn mwy ...<br><br>ac ati |